# Cyngor Cymdeithas LLANNERCH-Y-MEDD Community Council

## CYLCH GORCHWYL IS BWYLLGOR CYLLID

**1. Cyflwyniad**

Pwrpas yr Is Bwyllgor hwn yw sicrhau bod y Cyngor Llawn yn gallu rhoi sylw ychwanegol i faterion Cyllidol. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd pob yn ail fis (neu yn amlach fel bo'r angen) i drafod materion a nodi'r isod. Bydd gan y Pwyllgor rym i wneud penderfyniadau ar ran y Pwyllgor Llawn yn unol â Rheolau Statudol y Cyngor. Bydd yr Is Bwyllgor yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor Llawn.

**2. Pŵer Dirprwyedig gan y Cyngor Llawn**

- Defnyddir Rheolau Sefydlog y Cyngor yn sylfaen i weithrediadau'r Pwyllgor
- Wrth sefydlu'r Pwyllgor hwn mae'r Cyngor Llawn yn cytuno i roi pŵer dirprwyedig iddo i weithredu'n addas ar faterion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Lle ystyrir bod materion ar lefel o bwysigrwydd y Cyngor Llawn, yn dilyn unrhyw gyfarfod, dylid adrodd i Gadeirydd y Cyngor Llawn er cymeradwyaeth cyn gweithredu, gan mai'r Cyngor Llawn sy'n cadw'r cyfrifoldeb am weithrediadau'r Pwyllgor.
- Mae gan y Cyngor Llawn hawl i ddiwygio pŵer dirprwyedig a'r Cylch Gorchwyl fel bo'r angen.

**3. Aelodaeth**

- Cadeirydd y Cyngor Llawn
- 6 Cynghorydd

Bydd y Pwyllgor yn cael ei wasanaethu gan y Clerc.

**4. Quorwm**

- 3 aelod o'r Pwyllgor a benodwyd yn bresennol

**5. Pleidleisio**

- Bydd y Pwyllgor yn gweithredu ar sail consensws. Os bydd anghytundeb rhwng aelodau'r Pwyllgor bydd y mater yn cael ei adrodd i'r Cyngor Llawn i'w ddatrys.

**6. Amlder y Cyfarfodydd**

Mis olaf pob chwarter cyn y Pwyllgor Llawn

## 7. Pwerau/Dyletswyddau

i) Adolygu’r gyllideb wariant ar sail y dyraniad disgwyliedig i’r Cyngor Llawn;

ii) Adolygu perfformiad ariannol y Cyngor Llawn yn erbyn y gyllideb wario a gwneud argymhellion i’r Cyngor Llawn ar y gweithredu priodol sydd ei angen;

iii) Adolygu perfformiad ariannol y Cyngor Llawn yn erbyn gofynion y Rheolau Sefydlog a gwneud argymhellion i’r Cyngor Llawn ar y gweithredu priodol sydd ei angen;

iv) Adolygu canllawiau ariannol y Cyngor i sicrhau eu bod cyd-fynd a’r safonau disgwyliedig;

v) Arolygu’r broses o gyflwyno Cyfrifon Terfynol i’r Archwilwyr mewnol ac allanol yn unol â’r gofynion statudol.

## 8. Cefnogaeth Weinyddol

- Clerc y Cyngor Llawn i ddarparu cefnogaeth weinyddol
- Cofnodion a rhestr o unrhyw weithrediadau i’w cyflwyno i gyfarfod canlynol y Cyngor Llawn.

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad creu: | Mawrth 2009 v0.1 | |
| Adolygwyd: | Medi 2009 | v 0.2 |
| Adolygwyd: | Mai 2016 | v 0.3 |
| Adolygwyd | 19.5.16 | v 0.4 |
| Adolygwyd | 01.02.18 | v 0.5 |
| Adolygwyd | 22.01.19 | v 0.6 |